

# YR ATGYFODIAD—RHESYMAU Y DYLA'R GOBATH HWN FOD YN FYW ICHI

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Dangoswch, gydag argyhoeddiad a chan ddwyn perswâd, fod gobath yr atgyfodiad wedi ei seilio'n gadarn ar yr Ysgrifurau. Darllenwch ac esboniwch yr adnodau â phwyslais addas, gan egluro pam y gallwn ni ymddiried yn llwyr yn y ddydsgeidiaeth hon. Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi'n fwyfwy sut y mae'r atgyfodiad yn amlygu'r cariad sydd gan Dduw tuag atom

## **RHESYMAU PAM DAETH YR ATGYFODIAD YN ANGENRHEIDIOL** (7 mun.)

Mae'r atgyfodiad yn hanfodol i gyflawniad pwrpas Jehofah

Daeth marwolaeth ar ein gwarthaf oherwydd cynllwynion Satan (In 8:44)

Mae'r atgyfodiad yn harmoneiddio â phwrpas Duw tuag at y ddaear (Ge 1:28)

Mae'r atgyfodiad yn cyflawnhau Jehofah fel ceidwad cariadus a phwerus ei weision (1Sa 2:6)

Mae Jehofah yn gwobrwyo ei ffyddloniaid â bywyd tragwyddol (Mth 24:9; Tit 1:2; Dat 2:10)

Ni all yr un duw arall gadw nac adfywio bywyd (Sal 36:9)

## **YR HYN SY'N SICRHAU'R ATGYFODIAD** (7 mun.)

Mae Jehofah yn gwarantu'r atgyfodiad (Act 17:31)

Y warant yw atgyfodiad Iesu (*w82-E* 10/1 20 par. 2-3)

Wedi ei atgyfodiad, ymddangosodd Crist i gannoedd (1Co 15:6)

Yn gywir, cyfeiriodd Iesu ato'i hun fel yr "atgyfodiad a'r bywyd," am mai trwyddo ef y mae Jehofah yn atgyfodi eraill (In 11:25)

Ei atgyfodiad ef a baratôdd y ffordd ar gyfer atgyfodiad biliynau

Dangosodd Iesu wirionedd yr atgyfodiad

Fe gymharodd marwolaeth â chwsg

Gyda grym Duw, fe atgyfododd Iesu'r meirw cyn hawdded â buasem ni'n codi anwylyd o'i gwsg (In 11:11-14)

Dim rhyfedd felly bod Iesu'n mynegi llawn hyder yn yr atgyfodiad! (In 5:28, 29; *it-2-E* 789 par. 3-6)

Rhoddodd Cristnogion y ganrif gyntaf ffydd yn yr atgyfodiad (Heb 6:1, 2)

## **FFYNHONNELL O GYNHALIAETH GYSURUS** (10 mun.)

Rydym ni ddim "ond tarth, sy'n cael ei weld am ychydig, ac yna'n diflannu" (Iag 4:14)

Yn y byd ansicr sydd ohoni gall bywyd ddiflannu'n sydyn

Mae'r atgyfodiad yn ein cynnal, yn lleddfu realiti brwnt marwolaeth

Nid yw ofn marwolaeth yn arglwyddiaethu ar fywyd y sawl sy'n caru Jehofah, nac yn arswyd i'w llethu, fel y mae i lawer (Heb 2:14, 15)

I ffyddloniaid Duw nid y diwedd yw marwolaeth

Mae realiti'r atgyfodiad yn gynhaliath a chysur inni i gyd

Gall damwain, salweh, a marwolaeth ddod i unrhyw un (Pre 9:11)

Gobaith nifer o ffyddloniaid hir eu gwasanaeth oedd goroesi diwedd yr hen drefn hon, ond nawr maent yn wynebu trafferthion sy'n dod yn sgil henaint (Pre 12:1-7)

Gan mai dros dro yw'r drefn hon, dylem ganolbwyntio ar "y bywyd sydd yn fywyd yn wir," sef "bywyd tragwyddol" (1Ti 6:12, 19)

Fel Paul, pan ydym ni'n wynebu treialon oherwydd ein gwasanaeth duwiol, gobath yr atgyfodiad sydd yn ein cynnal (2Co 1:8, 9)

Mae'r fath dreialon yn profi nerth ein ffydd yn yr atgyfodiad

Os yw ein bywyd dan fygythiad, ffydd yn yr atgyfodiad sydd yn peri ffyddlondeb digyfaddawd ynom

Y gobath hwn sydd wedi helpu llawer i fod yn ufudd i ddeddfau Duw ar waed, ac i gadw niwtraliaeth Gristnogol

## **DANGOS EIN FFYDD YN YR ATGYFODIAD** (3 mun.)

Uniondeb gweision Jehofah sy'n profi mai ffydd a chariad yw sylfaen eu gwasanaeth, er i rai wynebu marwolaeth (Dat 12:11)

Rydym yn offrymu ymroddiad llwyr i Jehofah oherwydd ei nodweddion bendigedig (Dat 4:11)

Braint yw cael gwneud ein rhan i brofi Satan yn gelwyddog yn ei gyhuddiadau yn erbyn Jehofah a ninnau (Job 2:4; Dia 27:11)

## **CADWCH FYWYD TRAGWYDDOL MEWN GOLWG** (3 mun.)

Daw mawr gysur o wybod bod Jehofah yn hiraethu am gael adfywio ei ffyddloniaid [Darllenwch Job 14:14, 15]

Rhaid inni gadw ein hunain "yng nghariad Duw," gan ddisgwyl yn amyneddgar am gyflawniad sicr Jehofah yn ei bwrpas o wobrwyo pobl ufudd â bywyd tragwyddol (Jwd 21)

(Glynwch yn agos wrth yr amlinelliaid hwn, a chadwch at yr amser a bennwyd ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob cyfeiriad. Gweler y llyfr *Ministry School*, tt. 52-54, 116-119)